Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 22/06/2022 i'w hateb ar 29/06/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Y GWEINIDOG CYLLID A LLYWODRAETH LEOL

Sian Gwenllian *Arfon*

1 OQ58276 **(w)**

Pa effaith fydd y cynlluniau cyllidebu ar sail rhywedd yn ei chael ar etholaeth Arfon?

Jane Dodds *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

2 OQ58269 **(e)**

Beth yw blaenoriaethau gwariant y Gweinidog ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru am y 12 mis nesaf?

Ken Skates *De Clwyd*

3 OQ58249 **(e)**

Pa effaith a gaiff newid dosbarthiad eiddo hunanarlwyo at ddibenion treth ar drigolion mewn cymunedau sydd â mwy a mwy o lety hunanarlwyo?

Delyth Jewell *Dwyrain De Cymru*

4 OQ58274 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ynghylch ariannu prydau ysgol am ddim i bawb yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol?

Alun Davies *Blaenau Gwent*

5 OQ58251 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith polisi economaidd Llywodraeth y DU ar gyllideb Llywodraeth Cymru?

Janet Finch-Saunders *Aberconwy*

6 OQ58252 **(e)**

Pa strwythurau sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith i fonitro'r defnydd o arian grant a ddyfernir i brosiectau yng Nghymru?

Natasha Asghar *Dwyrain De Cymru*

7 OQ58267 **(e)**

Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i ddyletswydd awdurdodau lleol i ddarparu tai hygyrch wrth benderfynu ar setliad llywodraeth leol 2022-23?

Vikki Howells *Cwm Cynon*

8 OQ58259 **(e)**

Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i gefnogi busnesau bach a chanolig eu maint wrth benderfynu ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23?

Sam Rowlands *Gogledd Cymru*

9 OQ58260 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella perfformiad llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau?

Altaf Hussain *Gorllewin De Cymru*

10 OQ58243 **(e)**

Pa adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu i alluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol?

John Griffiths *Dwyrain Casnewydd*

11 OQ58256 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae cynllun cymorth disgresiynol ar gyfer costau byw Llywodraeth Cymru yn cefnogi awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw?

Tom Giffard *Gorllewin De Cymru*

12 OQ58264 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno'r cynllun cymorth costau byw drwy awdurdodau lleol?

Y GWEINIDOG MATERION GWLEDIG A GOGLEDD CYMRU, A'R TREFNYDD

Heledd Fychan *Canol De Cymru*

1 OQ58257 **(e)**

Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i ddarparu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus rheolaidd ar berchnogaeth gyfrifol ar anifeiliaid anwes i wrthbwyso'r risg o gynnydd yn nifer yr anifeiliaid a gaiff eu gadael o ganlyniad i'r argyfwng costau byw?

Sam Rowlands *Gogledd Cymru*

2 OQ58261 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi ffermwyr yng Ngogledd Cymru?

Jayne Bryant *Gorllewin Casnewydd*

3 OQ58278 **(e)**

Sut y bydd polisi ffermio Llywodraeth Cymru yn y dyfodol helpu i leihau gwastraff amaethyddol?

Jane Dodds *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OQ58270 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol stadiwm Valley Greyhounds?

Sarah Murphy *Pen-y-Bont ar Ogwr*

5 OQ58248 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi canolfannau ailgartrefu anifeiliaid i ofalu am gŵn sy'n cael eu hachub rhag bridio anghyfreithlon?

Mike Hedges *Dwyrain Abertawe*

6 OQ58244 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effeithiolrwydd deddfwriaeth Cymru o ran diogelu cŵn?

Peter Fox *Mynwy*

7 OQ58280 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog pobl ifanc i ymuno â'r sector amaethyddol a'u cadw?

Rhianon Passmore *Islwyn*

8 OQ58277 **(e)**

Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno i Lywodraeth y DU am effaith oedi cyn cyflwyno archwiliadau mewnforio'r Undeb Ewropeaidd ar ffermio yng Nghymru?

Gareth Davies *Dyffryn Clwyd*

9 OQ58273 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gefnogi ffermwyr yn Nyffryn Clwyd?

John Griffiths *Dwyrain Casnewydd*

10 OQ58255 **(e)**

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella lles anifeiliaid yng Nghymru?

Adam Price *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

11 OQ58263 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau amaethyddol yn Nwyrain Caerfyrddin a Dinefwr yn wyneb costau cynyddol am gyflenwadau hanfodol fel tanwydd a gwrtaith?

Sian Gwenllian *Arfon*

12 OQ58271 **(w)**

Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi gael gyda Gweinidogion eraill am gynlluniau i wella canol dinas Bangor?